

# Garn Bentyrch

22 Km - 14 Milltir

# Garn Bentyrch

22 Km - 14 Miles

Pen Llŷn  
Llŷn Peninsula



## Taith Garn Bentyrch

- Mae'r daith yn cychwyn yn y maes parcio ynghanol Chwilog. Troi i'r chwith wrth gyrraedd y ffordd a chymeryd y tro cyntaf i'r chwith tuag at Wernol. Aros ar y ffordd yma am tua 4 milltir ac yna troi i'r chwith cyn cyrraedd Pont y Felin.
- Dilyn y ffordd a chymeryd yr ail dro i'r chwith ger y bwth ffôn. Cymeryd yr ail dro eto i'r chwith a'r tro cyntaf wedyn i'r dde. Aros ar y ffordd yma am tua dwy filltir a hanner, ymlaen heibio Pensarn a Cae'r-Ferch ac ymlaen i Bencaenewydd.
- Troi i'r chwith ym Mhencaenewydd, croesi ar draws y gyffordd nesa, aros ar y ffordd drwy Lanarmon a throi i'r chwith ar gyffordd B4354 cyn dychwelyd i Chwilog a'r man cychwyn.

## Garn Bentyrch Ride

- The ride starts at the car park in the centre of Chwilog. Leaving the car-park turn left onto the highway. Take the first left turn at Wernol. Stay on this road for approximately four miles turning left before reaching Pont-y-Felin.
- Follow the road and take the second left turn just before the phone booth. Afterwards take the second left turning followed by the first right. Continue along this road for two miles.
- Pass Pensarn, Cae'r Ferch reaching Pencaenewydd. Bear left in the village and through the next junction. Continue along the road through Llanarmon turning left at the junction with the B4354.
- Continue along road to return to Chwilog.



# Garn Bentyrch

**Cychwyn a Gorffen:** . . . . . Maes Parcio gyferbyn â Madryn Arms, Chwilog  
**Parcio:** . . . . . gyferbyn â Madryn Arms, Chwilog  
**Hyd y Daith:** . . . . . **22 Km - 14 milltir**  
**Amser:** . . . . . **2 - 2½ awr**

**Trafnidiaeth Gyhoeddus Agosaf:** Rheilffordd: Pwllheli

**O Ddrws i Ddrws :** 01758 721777

**Gwasanaethau agosaf ar gyfer beicwyr:**

Beics Berno

Partiau a thrwsio - Llŷn Cycle Centre, Yr Ala, Pwllheli. Ffôn: 01758 612414.



Dyma daith hamddenol gyda'r ffordd yn bur wastad trwy ganol Eifionydd, 'y tawel gwmwd hwn'.

Un o nodweddion enwocaf yr ardal ydi'r Lôn Goed sy'n ymestyn i'r gogledd o Afonwen yng nghyffiniau Chwilog hyd at ardal Brynengan ar lethrau Mynydd Cennin. Plannwyd ei choed derw a ffawydd yn nechrau'r G19 i wasanaethu ffermydd stad Talhenbont, a phery hyd heddiw yn daith gerdded ddifyr. Ger fferm Betws Fawr byddwch yn croesi'r Lôn Goed am y tro cyntaf ac yn ymuno â Lôn Las Cymru (Taith 8) cyn i honno wahanu ac ymuno yn y man â Lôn Eifion.

Mae Eifionydd yn gyfoethog yn ei thraddodiad llenyddol. Ym Metws Fawr y cartrefai Robert ap Gwilym Ddu yn G18. Dewi Wyn o Eifion ac yntau a goffeir yng Nghapel y Beirdd.

Wrth deithio tua'r gogledd bydd y ffordd yn codi ychydig ac mae'r wlad yn fwy agored. Yr Eifl, Gyrn Ddu a Gyrn Goch fydd ar eich chwith gyda Bae Ceredigion a mynyddoedd Meirionnydd yn ôl ac ar y dde. Aiff y tir yn fwy corsiog gyda plu'r gweunydd ac aeron criafol ddiwedd haf yn harddu'r olygfa.

Wedi gadael Llanarmon buan y dowch i'r briffordd a dychwelyd i Chwilog ar hyd yr hen ffordd dyrpeg oedd y arwain i Borthdinllaen.



Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol

**Garn Bentyrch**

